DARLLENWCH

"Y Ddraig Goch," bob mis, 3c. Trwy'r post am flwyddyn 3/6

"The Welsh Nation," bob mis, 3c. Trwy'r post am flwyddyn 3/6 (Y ddau bapur, 6/-).

Can Wales Afford Self-Government? Drd. D. J. a Noelle Davies 2/-

Towards an Economic Democracy, Dr. D. J. Davies ... 2/-

Eu Hiaith a Gadwant, Gwynfor Evans ... ... 3c.

They Cry Wolf: Totalitarianism and the Way Out, Gwynfor Evans ... ... 2c.

Argyfwng Cymru, Saunders Lewis ... ... 3c.

Ffeithiau i Gymru: Llwyddiant trwy Hunan-lywodraeth, J. E. Jones ... ... 2c.

Deddf Uno 1536, gan Ambrose Bebb, Arthur Price, Alun Pugh, D. J. Davies, W. J. Gruffydd 2/-

The Banned Wireless Talk on Welsh Nationalism, Saunders Lewis ... ... 2c.

Connolly of Ireland: Patriot and Socialist, Dr. Nöelle Davies 1/-

Breton Nationalism 1/3

Must the Welsh Pits Close? Wynne Samuel ... ... 3c.

The Welsh Coal Industry, D. J. Davies a H. P. Richards 6c.

Local Government and Wales, Wynne Samuel ... ... 3c.

Trade Union Congress for Wales, Ithel Davies ... ... 3c.

Gair o Enau Gwroniaid—Datganiadau Arwyr Meirion at Hunan-lywodraeth ... ... 2g.

Y Drydedd Ffordd, Wilfred Wellock 1/-

(Cludiad yn ychwanegol, 1c. ar bamffledi dan 6ch.; 2g. tros hynny).

Swyddfa Plaid Cymru, 8 Queen Street, Caerdydd

PLAID CYMRU

A'I NEGES

D. Myrddin Lloyd

PLAID CYMRU

PRIS

CHWECHEINIOG

ARGRAFFIAD CYNTAF, 1949

Trwy ddisgyblaeth y mae'n rhaid i ninnau lwyddo, a rhaid i bobl Cymru weled bod ffurfiau israddol o lywodraeth yn gwbl analluog i roddi bodlonrwydd iddynt, a gweled na wna dim y tro, yn y pen draw, ond Ymreolaeth.

(SYR) O. M. EDWARDS yn *Cymru Fydd*, 1890

Argraffwyd gan Priory Press, Cyf.,
a chyhoeddwyd gan J. E. Jones, Swyddfa Plaid Cymru, 8, Queen Street, Caerdydd. Tel. 8008

PLAID CYMRU A'I NEGES

FURFIWYD Plaid Cymru yn y flwyddyn 1925 trwy uniad dwy gymdeithas lai. Ychydig o wŷr ifainc o ardal chwareli Arfon oedd aelodau'r naill, a chychwynnwyd y llall gan nifer o fyfyrwyr yng Ngholeg Aberystwyth a oedd wedi dyfod ynghyd o amrywiol ardaloedd yng Nghymru, ond a gafodd yr un weledigaeth a'u meddu gan yr un penderfyniad. Yr oedd sefydlu plaid wleidyddol Gymreig yn gychwyn newydd—yn holloi felly ar ddiwedd chwarter cyntaf yr ugeinfed ganrif, ond er hynny deallodd Plaid Cymru yn union mai hi oedd etifedd holl fudiadau'r gorffennol a fu o ddifri gyda'r gwaith o adfer cenedligrwydd Cymru yn ei ddirywiad a'i ymddatod.

Ni ellid amau ei bod yn gyfnod o chwalu cyflym ar y genedl. Trwy rannau helaeth o'r wlad yr oedd y bobl ifainc yn colli gafael ar yr iaith Gymraeg a'u hetifeddiaeth yn gyflymach hyd yn oed nag yr oeddynt yn dysgu Saesneg. Ym myd addysg yr oedd cryn sôn am dechneg dysgu iaith, ond fawr ddim am unrhyw gymhelliad clir a fyddai'n ysbrydoli ac yn cipio dychymyg ieuenctid Cymru. Yr oedd ein ffermwyr, wedi ffyniant dros dro yn ystod blynyddoedd y rhyfel, yn wynebu'r adeg fwyaf pryderus o fewn cof dyn. Beichid llawer ohonynt gan ddyledion trwm, a'u digalonni gan brisoedd isel a marchnad ansicr. Yr oedd y tir yn prysur fynd yn wyllt. Ac nid oedd cyflwr diwydiant Cymru fawr gwell; y crefftau'n dirywio, a chorff y boblogaeth yn wasgedig o fewn cymoedd y glo ac o'u cwmpas, a bron yn llwyr ddibynnol ar ychydig o ddiwydiannau trymion, heb fawr amrywiaeth gwaith. Prif nod polisi credid llywodraeth Llundain oedd sicrhau safle ariannol y Ddinas, ac nid lles y bobl, a lles y genedl Gymreig leiaf oll. Mwyach, nid o ardaloedd amaethyddol i fangreoedd diwydiant yng Nghymru yr oedd y boblogaeth yn symud, ond o Gymru gwbl ddirwasgedig i Loegr. Yn ystod y blynyddoedd rhwng y ddau ryfel, collodd Cymru bumed rhan ei phoblogaeth, ac wrth reswm, yr ifanc egnïol a âi. Yr oedd cyflwr iechyd y bobl a arhosodd ar ôl yn eu gwlad y gwaelaf yn y deyrnas, fel y gwelid flwyddyn ar ôl blwyddyn oddi wrth ystadegau marwolaethau babanod, a mamau ar enedigaeth, y cancr, ac yn bennaf oll y ddarfodedigaeth â'i tholl ddidostur o blith ein pobl ifainc.

Gwaeth na'r cwbl oedd gwraidd yr holl ddrwg yn ysbryd y genedl. Yr oedd ysbryd anturiaeth a hunan-hyder ar drai. Mynnai'r arweinwyr gwleidyddol, yn enwedig y rhai a berthynai i'r ysgol sosialaidd Seisnig y gwelid ei dylanwad ar gynnydd, fod achosion dirywiad y genedl allan o'i chyrraedd am eu bod yn rhyngwladol. Ni ellid ond 'deall' yr achosion hyn yng Nghymru, ac yr oedd y gwaith o'u symud yn dibynnu ar ddatblygiadau o'r tu allan. Bu effaith yr hanner gwirionedd twyllodrus hwn yn drychinebus ar lywodraeth leol yng Nghymru ddiwydiannol; yn gymaint felly fel y tynnodd gerydd hyd yn oed Mr. Ernest Bevin yn 1934 pryd y gwnaeth ef annog y trefi i ystyried eu dyfodol gyda phryder mawr, a chymryd camre i ddeffro menter yn y bobl i'w hachub eu hunain.

Dywedid wrth Gymru nad oedd ceisio ymreolaeth o unrhyw les iddi, ac yn aml fe'i dysgid mai cam tuag yn ôl oedd coleddu'r syniad. Ac eto yn ystod y blynyddoedd hynny rhwng y ddau ryfel gwelid cynnydd mawr a ffyniant newydd mewn amryw o wledydd bychain rhyddion, yn arbennig yn Llychlyn ac ar arfordir y Baltig, gyda llesiant cymdeithasol gwell, ac ysbryd creadigol, rhydd, a democrataidd yn eu holl fywyd. Anodd oedd cysoni'r ystwythder a ddangosodd y gwledydd hyn wrth oresgyn dirwasgiad economaidd blynyddoedd cynnar y tri degau â syniadau'r bobl 'flaengar' hynny a wrthwynebai ymreolaeth i Gymru. Dangosai cynnydd cymdeithasol rhyfeddol Zealand Newydd y gellid cael o fewn i gymdeithas y cenhedloedd Prydeinig y rhyddid sydd ar genedl ei angen i'w lles, ac nis anghofiwyd gan Blaid Cymru.

Er diwedd chwarter cyntaf y ganrif trist oedd gweld mor amlwg y tro anffodus yr oedd gwleidyddiaeth yng Nghymru wedi ei gymryd. Yr oedd penllanw Cymru Fydd ryw ddeng mlynedd ar hugain cyn hynny yn dal yn iraidd yng nghof y genhedlaeth hynaf. Gwelir prif amcan y mudiad hwnnw yn glir yn y geiriau a godwyd yn nechrau'r pamffledyn hwn. Fel y gwyddys, nid ffigur gwleidyddol yn bennaf oedd y diweddar Syr O.M. Edwards, fwy na'r athronydd Syr Henry Jones, na'r bardd a'r ysgolhaig Syr John Morris-Jones. Eto bu Syr O. M. Edwards yn olygydd cylchgrawn Cymru Fydd, *sef mudiad gwleidyddol yn gweithio dros ymreolaeth i Gymru*; ysgrifennwyd pamffled cyntaf y mudiad gan Syr Henry Jones, a Syr John Morris-Jones oedd ysgrifennydd un o'i ganghennau lleol. Gwelsent fod undod organaidd i fywyd cyfoethog y wlad oedd mor annwyl iddynt, a bod eu sêl hwy dros arweddau amrywiol o fywyd a diwylliant y wlad hon: ei hiaith, ei nodweddion meddyliol, ei ffordd o deimlo, a'i gorchestion llenyddol, yn eu rhwymo wrth yr unig fudiad oedd o ddifri gyda'r gwaith hanfodol bwysig o sicrhau amodau parhad, undod, a ffyniant ei chymdeithas. Er lleied yr amser a'r egni oedd ganddynt i'w sbario i waith cwbl wleidyddol, yr oedd eu hymlyniad yn hysbys i bawb, ac yn nerthu dwylo'r rhai oedd yn mynnu'r

amser, a'u rhagolwg eang yn gymorth i gynnal gweithgarwch cenedlaethol gyda ffresni a hoywder a welwyd mewn diwygiad llenyddol, ysgolheictod, ac mewn sefydliadau newydd i'r genedl.

Llongddrylliwyd Cymru Fydd ar graig teyrngarwch gwleidyddol rhanedig. Tybiwyd y ceid ymreolaeth trwy weithio o fewn plaid wleidyddol Seisnig, ar ôl cael gan y blaid honno dderbyn hynny ar ei rhaglen. Gellid yn hawdd dynnu rhestr hir a blin o dderbyniadau felly ar bapur, ac o ddatganiadau gan arweinwyr gwleidyddol Seisnig o blaid ymreolaeth i Gymru, yn enwedig pan fo'r arweinwyr hynny mewn gwrthblaid, neu ar adeg etholiad. Ond yn ddieithriad fe'u hanghofir, neu eu gwadu, neu eu gadael o'r naill du oblegid prysurdeb galwadau eraill ar amser yr arweinwyr hyn pan fônt mewn swyddi ac yn ffurfio llywodraeth.

Y mae Plaid Cymru bob amser yn ystyried pwnc Ymreolaeth Cymru yn un a ddylai gael y sylw cyntaf, ac yn ei holl dacteg y mae hi'n ceisio ei adfer i faes gwleidyddiaeth fyw. Nid ystyriasom erioed ryddid ein gwlad fel un nod wleidyddol ddymunol yn unig ymysg llawer, ond fel yr unig sail y gellir adeiladu arni'r Gymru newydd. Gorchest ysbrydol a osodwyd arnom yn bennaf, sef adfer yr ymwybod o genedligrwydd Cymreig, ymwybod o falchder yn ein pobl ein hunain, ym mawredd ein hetifeddiaeth, yn rhinweddau a phosibliadau ein cenedl, a gofid tros ei phrofedigaethau, a fydd yn dolurio fel petai'n anffawd i aelod o'n teulu. Y mae gwerth mawr i ni yn y gyffelybiaeth rhwng cenedl a theulu. Yr oedd carennydd yn sylfaenol yn y gymdeithas Gymreig gynhenid, ac y mae'n, dal felly lle bynnag y ceir olion o'r gymdeithas honno. Gall ddirywio'n ddelfryd gwael a hunanol, ond ar y llaw arall gall roi inni syniad o genedl fydd yn ddyrchafol ac yn gyfrwng teilwng o'n hegnïon cymdeithasol ac economaidd.

Dealler nad ein pwrpas terfynol yw sicrhau i'r genedl Gymreig ei sefydliadau rhydd er mor angenrheidiol y bônt, a datganoli awdurdod yn unig. Nid digon yw datganoli awdurdod gan lywodraeth yn Llundain oblegid ei blino gan ormodedd o faterion i'w trin. Rhaid i ddiwygiad cenedlaethol yng Nghymru ddod o flaen, neu o leiaf yr un pryd â'r fath ddatganoli, a'i nodweddu gan ofal newydd tros lesiant ein pobl, a'u hetifeddiaeth feddyliol ac ysbrydol fel Cymry. Gallai corff o weinyddwyr yn gweini awdurdod datganolog heb yr ysbryd a'r rhagolwg cenedlaethol hyn droi'n fygythiad llechwrus hyd yn oed i'n bodolaeth fel cenedl. Ceisia datganolwyr afael yn unig ar faterion o ddiddordeb lleol, ond gwyddom ni na ellir ysgaru'r materion hyn oddi wrth bynciau o bolisi cyffredinol. Y mae'r arian, y llafur, a'r adnoddau a bennir i godi tai, neu unrhyw lesiant arall, neu gynlluniau diwydiannol i Gymru, ynghlwm wrth bolisi credid cyffredinol, polisi rhyfel, a materion eang eraill. Y mae Plaid Cymru yn cychwyn gyda datganiad diamwys fod Cymru'n genedl, a chydag ymrwymiad llwyr i achos rhyddid Cymru.